

Hysbysiad o'r amser diweddaraf i gyflwyno anerchiadau etholiadol ymgeiswyr i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu

Yn unol â pharagraff 2, Atodlen 8, Rhan 1 o Orchymyn Etholiadau Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddau 2012, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu roi hysbysiad cyhoeddus o'r amser diweddaraf y caiff ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwn gyflwyno eu hanerchiad etholiadol.

Y terfyn amser i ymgeiswyr gyflwyno eu hanerchiad etholiadol fydd 12.00pm (CANOL DYDD) ar ddydd Iau, 8 Ebrill 2021.

1. Rhaid i'r anerchiad etholiadol gael ei baratoi gan asiant yr ymgeisydd ar y ffurflen ragnodedig a'i gyflwyno'n electronig i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu erbyn yr amser uchod.
2. Rhaid rhoi cyfeiriad yr asiant etholiadol hefyd.
3. Rhaid cyflwyno'r anerchiad etholiadol yn Gymraeg neu Saesneg a chaiff yr asiant etholiadol gyflwyno cyfieithiad hefyd i'r Saesneg neu Gymraeg sy'n gyfieithiad cyflawn a chywir.
4. Rhaid i anerchiad etholiadol nodi enw'r ymgeisydd a rhaid iddo gynnwys deunydd sy'n ymwneud â'r etholiad uchod yn unig.
5. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd hysbysebu (heblaw deunydd yn hyrwyddo'r ymgeisydd fel ymgeisydd yn yr etholiad).
6. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cyfeirio at unrhyw ymgeisydd arall ar gyfer yr etholiad.
7. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio ag ymddangos i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ei fod yn cynnwys unrhyw ddeunydd gyda golwg ar ennill masnachol, neu fod yn anwedus, anllad neu dramgwyddus.
8. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â bod yn gyhoeddiad neu ddisbarthiad a fyddai'n debygol o fod cystal â chyflawni trosedd.
9. Rhaid i unrhyw ffotograff sy'n dangos yr ymgeisydd a gaiff ei gynnwys yn yr anerchiad etholiadol beidio â dangos neb arall a rhaid iddo gydymffurfio â pharagraffau 5 i 8 uchod.
10. Caiff yr anerchiad etholiadol gynnwys cynrychioliad o emblem gofrestredig, neu (yn ôl fel y digwydd) un o emblemau cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig, os paratwir yr anerchiad ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig.
11. Ble paratwir anerchiad etholiadol ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig, caiff yr anerchiad gynnwys disgrifiad o dan adran 28A o Ddeddf 2000 neu, os yw'r disgrifiad wedi'i gofrestru i'w ddefnyddio gan ymgeiswyr dwy blaid neu fwy, o dan adran 28B y Ddeddf honno.

Colin Everett
Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu

Dyddiedig: dydd Llun, 22 Mawrth 2021